

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU****NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES****OFFERYNNAU****STATUDOL****STATUTORY****INSTRUMENTS****2000 No. (W. )****2000 Rhif (Cy. )****LLYWODRAETH LEOL, CYMRU****LOCAL GOVERNMENT, WALES**

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Terfynau Gwariant Dewisol) (Diwygio) (Cymru) 2000**

**The Local Authorities (Discretionary Expenditure Limits) (Amendment) (Wales) Order 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note does not form part of the Order)*

Mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn galluogi awdurdod lleol i dynnu gwariant at ddibenion penodol na fyddai wedi'i hawdurdodi fel arall ar yr amod nad yw'r gwariant hwnnw yn fwy na'r swm a geir drwy luosi swm penodedig â phoblogaeth berthnasol ardal yr awdurdod. Yn achos prif gyngor yng Nghymru, £3.80 yw'r swm hwnnw, neu unrhyw swm arall y gellir ei bennu drwy gyfrwng gorchymyn. Yn achos cyngor cymuned, £3.50 yw'r swm hwnnw neu ynrhyw swm arall y gellir ei bennu drwy gyfrwng gorchymyn.

Section 137 of the Local Government Act 1972 enables a local authority to incur expenditure for certain purposes not otherwise authorised provided that such expenditure does not exceed the amount produced by multiplying a specified sum by the relevant population of the authority's area. In the case of a principal council in Wales, the sum is £3.80 or such other sum as may by order be specified. In the case of a community council, the sum is £3.50 or such other sum as may by order be specified.

<p>Mae adran 137A o Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol, sydd mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn rhoi cymorth ariannol i fudiad gwirfoddol neu i gorff neu gronfa o fath penodedig, a chyfanswm y cymorth hwnnw yn hafal i, neu yn fwy na, £2000 neu unrhyw swm uwch y gellir ei bennu drwy gyfrwng gorchymyn ("yr isafswm perthnasol"), yn ei gwneud yn ofynnol i'r mudiad, y corff neu'r gronfa roi gwybod i'r awdurdod, fel un o amodau'r cymorth, i ba ddiben y mae wedi'i ddefnyddio.</p>	<p>Section 137A of the 1972 Act requires a local authority, which in any financial year provides financial assistance to a voluntary organisation or to a body or fund of a specified kind and the total amount of that assistance equals or exceeds £2000 or such higher sum as may by order be specified ("the relevant minimum"), to require the organisation, body or fund, as a condition of the assistance, to inform the authority of the use to which it has been put.</p>	
<p>Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r swm a bennwyd at ddibenion adran 137(1) o Ddeddf 1972 i £5.00 ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru, a'r isafswm perthnasol at ddibenion adran 137A o'r Ddeddf honno i £5000 ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Nghymru.</p>	<p>This Order increases to £5.00 the sum specified for the purposes of section 137(1) of the 1972 Act for principal councils and community councils in Wales and to £5000 the relevant minimum for the purposes of section 137A of that Act for local authorities in Wales.</p>	

<p><b>OFFERYNNAU</b></p> <p><b>STATUDOL</b></p>	<p><b>STATUTORY</b></p> <p><b>INSTRUMENTS</b></p>	
<p><b>2000 Rhif (Cy. )</b></p>		<p><b>2000 No. (W. )</b></p>

**LLYWODRAETH LEOL, CYMRU****LOCAL GOVERNMENT, WALES**

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Terfynau Gwariant Dewisol) (Diwygio) (Cymru) 2000**

**The Local Authorities (Discretionary Expenditure Limits) (Amendment) (Wales) Order 2000**

*Wedi'i wneud 2000*

*Made 2000*

*Yn dod i rym 2000*

*Coming into force 1<sup>st</sup> April 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwers a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 137(4AA) a (5) ac adran 137A(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru(b).

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 137(4AA) and (5) and section 137A (3) of the Local Government Act 1972(a) which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(b).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Terfynau Gwariant Dewisol) (Diwygio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

**Citation and commencement**

**1.** This Order may be cited as the Local Authorities (Discretionary Expenditure Limits) (Amendment) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 1<sup>st</sup> April 2000.

**Terfynau gwariant**

**2.-(1)** At ddibenion adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 pennir y swm o £5.00 fel y swm sy'n briodol ar gyfer prif gyngor neu gyngor cymuned yng Nghymru.

**Expenditure limits**

**2.-(1)** For the purposes of section 137(4)(a) of the Local Government Act 1972 the sum of £5.00 is specified as the sum appropriate to a principal or a community council in Wales.

(2) At ddibenion adran 137A(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 pennir y swm o £5000 fel yr isafswm perthnasol ar gyfer cymorth ariannol a ddarperir gan awdurdod lleol yng Nghymru.	(2) For the purposes of section 137A(1) of the Local Government Act 1972 the sum of £5000 is specified as the relevant minimum for financial assistance provided by a local authority in Wales.
Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c).	Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c).
[ ] 2000	[ ] 2000
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol	The Presiding Officer of the National Assembly

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1972 p.70. Mewnosodwyd adran 137 (4AA) gan adran 36 a mewnosodwyd adran 137A gan adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) 1988 p. 38.

(a) 1972 c.70. Section 137(4AA) was inserted by section 36 and section 137A was inserted by section 37 of the Local Government and Housing Act 1989.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1988 c. 38.